Water Health Partnership for Wales

# Canllawiau ar gyfer darparu cyflenwadau dŵr yfed dros dro mewn digwyddiadau

Mehefin 2023

# Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru

Cynhyrchwyd y ddogfen ganllaw hon gan Bartneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru, sef menter iechyd y cyhoedd sy'n tynnu sefydliadau ac asiantaethau iechyd ynghyd i gydweithio ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd a dŵr. Mae nifer fawr o sefydliadau ac asiantaethau yn rhan o Bartneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru, gan gynnwys:

- Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru
- Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI)
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Byrddau Iechyd
- Awdurdodau Lleol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cwmnïau Dŵr: Dŵr Cymru Welsh Water a Hafren Dyfrdwy
- Llywodraeth Cymru

# Cynnwys


**Pwy ddylai ddefnyddio'r canllawiau hyn?** **3**

**Pwy sy'n gyfrifol am y dŵr a gyflenwir ar gyfer digwyddiad?** **4**

**Sut i sicrhau cyflenwad diogel o ddŵr yfed** **5**

1. Sut i sicrhau cyflenwad diogel o ddŵr yfed 5

2. Cysylltu â chyflenwad dŵr preifat 7

3. Cyflenwadau o danciau a dŵr potel 8

4. Cynlluniau argyfwng dŵr 9

5. Cynhyrchu plan o'r safle 11

6. Y cyflenwad dŵr cyhoeddus – gwerth ei wybod 12

7. Samplo 13

8. Yn ystod y digwyddiad 14

9. Storio pibellwaith a ffitiadau rhwng digwyddiadau 14

10.Rhestr gyfeirio ac amserlen wrth baratoi ar gyfer digwyddiad 15

**Manylion cysylltu** **16**

**Atodiad 1 – asesiad risg enghreifftiol** **17**

**Atodiad 2: cofnod gweithredu enghreifftiol** **22**

**Atodiad 3: cynllun argyfwng dŵr enghreifftiol** **23**

# Pwy ddylai ddefnyddio'r Canllawiau hyn?

Bwriedir i'r ddogfen ganllaw hon gael ei defnyddio gan drefnwyr digwyddiadau dros dro fel Eisteddfodau, sioeau amaethyddol neu wyliau i'w cynorthwyo i ddarparu cyflenwad iach a diogel o ddŵr yfed, boed hynny gan Gwmni Dŵr, trwy gyflenwad preifat neu gan ddefnyddio tanciau dros dro.

Mae'n berthnasol i bob digwyddiad trwyddedig neu ddidrwydded, hyd yn oed y rhai sy'n defnyddio'r un cyflenwad dŵr bob tro. Cyfrifoldeb pawb sydd ynghlwm wrth drefnu'r digwyddiad yw sicrhau bod y dŵr a ddarperir yn ddiogel i'w yfed. Dylid cymhwyso'r egwyddorion a bennir yn y ddogfen hon i bob digwyddiad dros dro lle bo angen darparu cyflenwad o ddŵr yfed, dim ots am ei faint.

Gall prinder dŵr, neu gyflenwi dŵr sy'n halogedig ac nad yw'n ddiogel i'w yfed, achosi risg difrifol i iechyd y cyhoedd, a gallai hyn gau'r digwyddiad, gyda'r trefnwyr yn wynebu'r posibilrwydd o:

- Gostau ychwanegol sylweddol
- Erlyniad
- Risg difrifol o achosi salwch a chamau sifil gan y rhai sy'n cael eu taro'n wael
- Peryglu eu henw da a pheri i'r cyhoedd fod yn gyndyn i fynychu digwyddiadau yn y dyfodol
- Sylw a chyhoeddusrwydd negyddol yn y cyfryngau

Wrth gynllunio, anogir trefnwyr digwyddiadau i gysylltu â'r Awdurdod Lleol, ac os ydyn nhw'n defnyddio'r cyflenwad cyhoeddus, y Cwmni Dŵr, ar gyfnod cynnar wrth gynllunio'r digwyddiad (gan anelu at o leiaf 16 wythnos ymlaen llaw). Gall y sefydliadau hyn gynnig cyngor a helpu'r trefnwyr i gynllunio a darparu cyflenwadau diogel o ddŵr yfed ar gyfer y digwyddiad.






delweddau: bbc.co.uk | cardiffhalfmarathon.co.uk

# Pwy sy'n gyfrifol am y dŵr a gyflenwir ar gyfer digwyddiad?

## Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw sicrhau bod yr holl ffitiadau ac offer yn bodloni'r gofynion rheoliadol[1] ac y cynhelir diogelwch y dŵr yfed trwy gydol y digwyddiad.

Mae Awdurdodau Lleol yn disgwyl i drefnwyr gydymffurfio â Safon Brydeinig BS8551:2015 Darparu a rheoli cyflenwadau dŵr a rhwydweithiau dosbarthu dros dro (heb gynnwys darpariaethau ar gyfer argyfyngau statudol) – Y Cod Ymarfer.

### Digwyddiadau sy'n cymryd eu cyflenwadau o'r cyflenwad dŵr cyhoeddus

Y Cwmni Dŵr sy'n gyfrifol am sicrhau bod y dŵr yn y pwynt cysylltu'n ddiogel ac yn iach, a'i fod yn bodloni rheoliadau'r DU (1). Mae gan y Cwmni Dŵr y pŵer i gyflawni archwiliadau ar y pibellwaith a'r ffitiadau cyflenwi o fewn y safle, gan sicrhau y bodlonir rheoliadau'r DU[2] er mwyn atal halogiad y rhwydwaith dŵr a chyflenwad dŵr y digwyddiad ill dau.

### Digwyddiadau sy'n cymryd eu cyflenwadau o gyflenwadau dŵr preifat

Ystyr cyflenwad dŵr preifat yw cyflenwad dŵr heblaw cyflenwad a ddarperir gan gwmni dŵr neu drwyddedai cyflenwi dŵr. Lle bo digwyddiad dros dro yn defnyddio cyflenwad dŵr preifat, mae yna nifer o ddyletswyddau y mae angen i'r Awdurdod Lleol, fel y rheoleiddiwr, eu cyflawni o dan Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad i gyflawni asesiad risg o'r system gyflenwi ac i fonitro (samplo a dadansoddi) y dŵr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau rheoliadol lle bo'n cael ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion domestig neu unrhyw ddefnydd sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd. Rhaid peidio â dechrau defnyddio cyflenwad dŵr preifat ar gyfer digwyddiad dros dro nes bod yr Awdurdod Lleol yn fodlon nad yw'r cyflenwad yn peri risg i iechyd y cyhoedd.

Bydd yr asesiad risg yn canfod a oes yna risg o gyflenwi dŵr a allai (neu a fyddai) yn achosi risg i iechyd pobl. Os ceir bod yna risg, bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol o dan reoliad 20 o'r rheoliadau i gyflwyno hysbysiad i fynnu a dilysu bod y trefnydd a/neu unrhyw berson perthnasol arall yn lliniaru'r risg(iau) yn ddigonol trwy gymryd mesurau unioni. Gallai hynny olygu gohirio neu ganslo'r digwyddiad, neu gyfyngu ar ddefnyddiau'r dŵr.

Gallai fynnu hefyd bod cyflenwadau amgen yn cael eu darparu, fel dŵr potel. Mae hi'n hanfodol gwneud trefniadau gyda'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod yr asesiad risg a'r gwaith monitro'n cael eu cynllunio a'u cyflawni mewn da bryd fel y gellir cwblhau unrhyw gamau adfer posibl cyn i'r digwyddiad agor os oes angen.

Mae Rheoliad 8 o'r rheoliadau'n ymwneud â'r gofyniad i fonitro math penodol o gyflenwad dŵr preifat lle bo dŵr gan ymgymerydd dŵr neu gyflenwr dŵr trwyddedig yn cael ei ddosbarthu'n ehangach gan berson heblaw'r ymgymerydd dŵr neu'r cyflenwr trwyddedig. Mae canllawiau pellach ar y math yma o gyflenwadau dŵr preifat ar wefan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed:

https://www.dwi.gov.uk/private-water-supplies/guidance-documents/pws-regulations/information-note-on-regulation-8-wales/dŵr

Cynghorir trefnwyr i gysylltu â'r Awdurdod Lleol os ydyn nhw'n credu bod rheoliad 8 yn berthnasol i'r dŵr maent yn bwriadu ei gyflenwi.

Dylai'r holl randdeiliaid fod yn ymwybodol bod Adran 66I(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn ei gwneud hi'n drosedd i berson nad yw'n ymgymerydd/trwyddedai ddefnyddio system cyflenwi ymgymerydd dŵr at ddibenion cyflenwi dŵr ar safle unrhyw gwsmer, person sy'n defnyddio'r system yn y modd yna, neu berson sy'n gysylltiedig â'r person yna, oni bai bod y cyflenwad yn rhan o drefniant swmpgyflenwi ffurfiol, neu lle sefydlwyd y system gyflenwi trwy ddeddfiad (a wneir trwy newid yn y gyfraith, rheoliad neu trwy statud).

1. Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018
2. Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999

# Sut i sicrhau cyflenwad diogel o ddŵr yfed

1

## Trefnu cysylltiad â'r cyflenwad dŵr cyhoeddus

### Ar gyfer cysylltiad dŵr newydd

Os oes angen cysylltiad newydd â'r cyflenwad dŵr cyhoeddus, rhaid cysylltu â'r Cwmni Dŵr o leiaf 16 wythnos cyn y digwyddiad. O dan amodau neilltuol, mae'n bosibl y gallai cysylltiad newydd gymryd mwy o amser na hynny i'w drefnu, felly cynghorir trefnwyr i gysylltu â'r Cwmni Dŵr ar y cyfle cyntaf posibl. Mae'r manylion cyswllt ym Mlwch 4.

**Hafren Dyfrdwy**
https://www.hdcymru.co.uk/building-and-developing/overview/
https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/

**Dŵr Cymru Welsh Water**
https://developers.dwrcymru.com/cy-gb/applications/water-connections

Bydd y Cwmni Dŵr yn penderfynu ar y pwynt mwyaf addas ar gyfer y cysylltiad yn eu system ddosbarthu. Codir tâl am y gwasanaeth hwn a gosodir mesurydd ar y cyflenwad.

Dylid nodi y gwneir cysylltiadau dŵr newydd ar gyfer cyflenwadau dŵr cyhoeddus yn amodol ar archwiliad boddhaol gan y Cwmni Dŵr yn unig.

### Wrth ddefnyddio cysylltiad dŵr sy'n bodoli eisoes

Rhaid cyflwyno hysbysiad o dan Reoliad 5 o Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 am unrhyw ddiwygiadau neu estyniadau a wneir i system cyflenwi dŵr sy'n bodoli eisoes sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad dŵr cyhoeddus a ddefnyddir ar gyfer digwyddiad dros dro.
Ni chaniateir cyflawni'r gwaith yma heb ganiatâd yr Ymgymerydd Dŵr, a bydd amodau perthnasol ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd a roddir.

Dylid cyflwyno'r hysbysiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, ond argymhellir cyflwyno hysbysiad o leiaf 28 diwrnod cyn dechrau unrhyw waith ar y digwyddiad.

# 1

## Cyflwyno Hysbysiad

Yn achos unrhyw gais neu hysbysiad, dylai'r wybodaeth a ddarperir gynnwys:

- Perchnogaeth a manylion y tir a ddefnyddir.
- Manylion y cwsmer a enwir ar y cyfrif – lle bo hynny'n berthnasol.
- Maint a math y cyflenwad sydd ei angen.
- Hyd y digwyddiad a'r nifer o bobl a ddisgwylir.
- Amlinelliad o'r prif gyfleusterau sydd angen cyflenwad dŵr e.e. safle'r ŵyl a safleoedd gwersylla.
- Manylion cysylltu gan gynnwys rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost.

**Dŵr Cymru Welsh Water**
www.dwrcymru.com/hysbysu

**Hafren Dyfrdwy**
https://www.hdcymru.co.uk/building-and-developing/regulations-and-forms/water-fittings-regulations/regulation-5/dŵr

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**
www.hse.gov.uk/event-safety

Organisers must also contact the relevant Local Authority to give them notice of the event and to provide a copy of the Water Management Plan for the event a minimum of 28 days before the event – see Box 4 for where to find contact details.

Rhaid i'r trefnwyr gysylltu â'r Awdurdod Lleol i'w hysbysu am y digwyddiad a darparu copi o'r Cynllun Rheoli Dŵr ar ei gyfer o leiaf 28 diwrnod cyn y digwyddiad - gweler Blwch 4 am y manylion cysylltu.

Tynnir sylw at y Purple Guide (www.thepurpleguide.co.uk), sy'n cael ei gyhoeddi gan Fforwm y Diwydiant Digwyddiadau ac sy'n rhannu gwybodaeth am iechyd, diogelwch a lles mewn Digwyddiadau Awyr Agored.

## Defnyddio Safbibellau

**Safbibellau sy'n gysylltiedig â phibellwaith y Cwmni Dŵr**
Rhaid llogi safbibellau i'w cysylltu â phibellwaith Dŵr Cymru trwy Ddŵr Cymru:
https://www.dwrcymru.com/cy-gb/help-advice/hire-standpipes

Am y bydd angen i Ddŵr Cymru samplo'r dŵr o'r safbibellau hyn cyn y gellir eu defnyddio ar gyfer y digwyddiad, mae hi'n bwysig bod y trefnwyr yn rhoi o leiaf 28 diwrnod o rybudd i'r cwmni.

**Cwsmeriaid Hafren Dyfrdwy**
www.hdcymru.co.uk/businesses/pipes-and-drains/standpipes

## Safbibellau sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau preifat o gyflenwad cyhoeddus

Lle bwriedir cysylltu'r safbibellau â rhwydwaith preifat e.e. pibellwaith nad yw'n eiddo i'r cwmni dŵr, rhaid i'r trefnwyr ddiheintio a samplo'r dŵr o'r safbibellau cyn dechrau'r digwyddiad.

Rhaid i'r trefnwyr sicrhau bod y gwaith diheintio a samplo'n cael ei gyflawni er boddhad yr Awdurdod Lleol perthnasol.

2

## Cysylltu â chyflenwad dŵr preifat

Os yw trefnwyr y digwyddiad yn bwriadu defnyddio cyflenwad dŵr preifat h.y. nid cyflenwad Cwmni Dŵr, mae hi'n bwysig rhoi cymaint o rybudd â phosibl (o leiaf 16 wythnos) i'r adran berthnasol yn yr Awdurdod Lleol o dan sylw (neu adran gyfrifol arall fel y bo'n briodol). Mae angen gwneud hyn hyd yn oed os yw'r cyflenwad yn dod o gysylltiad cyflenwi preifat sy'n bodoli eisoes.

Dyma'r wybodaeth y bydd angen ei darparu wrth wneud y cysylltiad cyntaf yma:

- Manylion perchnogaeth a'r tir a ddefnyddir
- Manylion y person/pobl berthnasol o dan Reoliadau Cyflenwi Dŵr Preifat (Cymru) 2017
- Maint a math y cyflenwad sydd ei angen a manylion y cynlluniau wrth gefn ar gyfer darparu cyflenwad digonol ac iachus
- Hyd y digwyddiad a'r nifer o bobl a ddisgwylir yn y digwyddiad
- Amlinelliad o'r prif gyfleusterau sydd angen cyflenwad dŵr e.e. safle'r ŵyl a'r safleoedd gwersylla
- Manylion cysylltu gan gynnwys rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost

DS. Mae'r manylion am sut i gysylltu â'r Awdurdod Lleol ar dudalen 16

Ar ôl cyflwyno'r wybodaeth yma, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflawni asesiad risg ar y cyflenwad dŵr preifat a/neu yn adolygu unrhyw asesiad risg a gyflawnwyd gan berson cymwys ar ran trefnydd y digwyddiad (gweler adran 4).





# 3

## Cyflenwadau o Danciau a Dŵr Potel

Cyhoeddwyd Safon Brydeinig sy'n rhoi canllawiau ar ddarparu cyflenwadau dros dro o ddŵr yfed diogel ar gyfer digwyddiadau lle nad oes cyflenwad parhaol ar gael h.y. pan fo tanciau neu lestri eraill (fel tanciau clustog) neu ddŵr potel yn cael eu defnyddio i ddarparu dŵr:

**BS8551:2015 Darparu a rheoli cyflenwadau dŵr a rhwydweithiau dosbarthu dros dro (heb gynnwys darpariaethau ar gyfer argyfyngau statudol)** – Y Cod Ymarfer sydd ar gael yn http://shop.bsigroup.com

Disgwylir i drefnwyr digwyddiadau a fydd yn darparu dŵr gan ddefnyddio tanciau neu boteli sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion angenrheidiol o ran y safonau er mwyn diogelu cyflenwadau diogel ac iach.

Os defnyddir tanciau a bwriedir iddynt gael eu llenwi gan ddefnyddio cyflenwad dŵr cyhoeddus Cwmni Dŵr, dylid nodi:

- Bod yn rhaid cael caniatâd gan y Cwmni Dŵr cyn llenwi'r tancer.
- Taw dim ond safbibellau sy'n cael eu llogi gan asiant penodol y Cwmni Dŵr y caniateir eu defnyddio i gysylltu â'r system gyflenwi gyhoeddus. Mae angen hyfforddiant priodol hefyd (asiant llogi'r safbibell fydd yn darparu hyn fel rheol).



4

## Cynlluniau Argyfwng Dŵr

Mae hi'n bwysig dros ben fod trefnwyr digwyddiadau'n ystyried sut y byddant yn delio â sefyllfa sy'n codi lle bo'r cyflenwad dŵr wedi ei halogi neu lle bo'r cyflenwad yn methu. Rhaid cynhyrchu cynllun argyfwng sy'n dogfennu sut y bwriedir delio ag amgylchiadau o'r fath e.e. cau'r digwyddiad neu fod â chynllun wrth gefn ar gyfer cyflenwad dŵr mewn argyfwng. Os bwriedir defnyddio'r ail ddewis yma, dylai'r trefnwyr ddogfennu logisteg derbyn a dosbarthu cyflenwadau brys yn eu cynllun argyfwng e.e. os bwriedir defnyddio tanceri, yna dylid ystyried hygyrchedd y safle. Ni all y trefnwyr ddibynnu ar yr Awdurdod Lleol neu'r Cwmni Dŵr i ddarparu cyflenwadau dŵr brys ar gyfer y digwyddiad. Gellir gofyn i'r trefnwyr gyflwyno eu cynllun argyfwng i'r Awdurdod Lleol cyn cynnal y digwyddiad.

Gall halogiad, diffyg pwysedd, neu ddiffyg cydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol olygu nad yw'r systemau dŵr ar gael.

Dylai trefnwyr y digwyddiad gynhyrchu cynllun ysgrifenedig ar sut i ddelio â thoriad annisgwyl neu anghynlluniedig yn y cyflenwad a ddisgwyliwyd. Mae'n bosibl y bydd angen dangos y cynllun er mwyn bodloni swyddogion yr Awdurdod Lleol neu bobl eraill bod materion diogelwch digwyddiadau/iechyd y cyhoedd wedi cael eu hystyried yn ddigonol.

Gellir cynnwys opsiynau fel gohirio, byrhau neu ganslo'r digwyddiad, neu ddarparu cyflenwad amgen yn y cynllun (gellir cynnwys hyn yn eich cynllun diogelwch cyffredinol ar gyfer y digwyddiad hefyd).

Rhaid i gynlluniau argyfwng dŵr ddisgrifio sut y byddwch chi'n darparu cyflenwadau dŵr brys mewn argyfwng oni bai eich bod yn dewis gohirio/canslo. Bydd angen nodi manylion fel isod os yw argaeledd eich darpariaeth dŵr amgen yn gyfyngedig, a bydd angen i'ch cynllun gymryd hyn i ystyriaeth. Gall methu â sefydlu trefniadau arwain at risgiau annerbyniol o ran iechyd y cyhoedd, felly mae'n bosibl na chaiff y digwyddiad ei hun fynd yn ei flaen / barhau.

**Ni all y Cwmni Dŵr, na'r Awdurdod Lleol ddarparu sicrwydd y gellir rhyddhau cyflenwadau brys ar gyfer digwyddiadau dros dro mewn argyfwng (oni bai y cafodd y trefniadau ar gyfer darparu dŵr eu cytuno'n ffurfiol ymlaen llaw).**

### Dylai eich cynllun gynnwys y canlynol:

- Faint sydd ei angen i sicrhau bod ffynhonnell amgen digonol ac iach o ddŵr ar gael mewn cyfeintiau digonol ar gyfer y niferoedd sy'n bwriadu dod i'r digwyddiad yn ddyddiol, gan gymryd i ystyriaeth a fydd yna wersylla dros nos a chyfleusterau cysylltiedig.
- Cadarnhad gan gyflenwr gwrth gefn fod ganddynt y capasiti i wasanaethu eich digwyddiad yn ystod dyddiadau a bennwyd ar gyfer y digwyddiad os oes angen.
- Disgrifiad o sut y bwriedir dosbarthu'r dŵr e.e. tancer, storfa swmp, poteli neu ddull arall.
- Lleoliad pwyntiau hygyrch ar gyfer darparu a dosbarthu'r dŵr (sy'n addas ar gyfer cerbydau cludo'r cyflenwr).
- Sut y bwriedir rheoli'r dosbarthiad.

### Pethau i'w cymryd i ystyriaeth:

- Ystyriwch argaeledd a lleoliad ffynonellau pŵer i weithredu'r pympiau a'r systemau trin dŵr os oes angen.
- Ystyriwch yr amgylchiadau amgylcheddol (dan do neu awyr agored) a allai achosi halogiad wrth gysylltu a gweithredu'r cyflenwad. Dylid cynnwys hyn yn rhan o'r asesiad risg.
- Labelwch y tapiau sy'n bwyntiau dŵr yfed addas a diheintiwch y rhain cyn y digwyddiad.
- Sicrhewch fod masnachwyr symudol sydd â thanciau dŵr yn eu cyfleusterau wedi diheintio'r tanc cyn ei ddefnyddio at ddibenion storio dŵr.
- Ydych chi wedi siarad â'r awdurdod lleol am eich cynllun argyfwng ac wedi ystyried mynediad i'r safle i danceri neu fowserau mewn argyfwng?

**Nodyn:** Mae Cyflenwadau o Danciau a Dŵr Potel (Adran 3) yn berthnasol i Ddarpariaethau brys o'r fath. Dylech sicrhau eich bod chi'n fodlon bod eich cyflenwr yn gyfarwydd â'r Safonau Prydeinig ac yn eu dilyn. Dylai sicrwydd ansawdd perthnasol ddarparu rhyw lefel o hyder yn hyn o beth.



5

## Cynhyrchu plan o’r safle

Er mwyn hwyluso’r broses o ddarparu cyflenwad dŵr diogel, dylai trefnwyr ddarparu planiau a darluniau ar gyfer yr Awdurdod Lleol a’r Cwmni Dŵr sy’n dangos sut y bwriedir cyflenwi’r dŵr ar gyfer y digwyddiad, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Gosodiad y pibellau cyflenwi dŵr a chyfeiriad y llif
- Lleoliad a disgrifiad o ffynhonnell y dŵr
- Lleoliad:
  - — Cyfleusterau gwagio toiledau cemegol
  - — Cyfleusterau ychwanegol e.e. cafnau dŵr anifeiliaid, pibellau dyfrio
  - — Dyfeisiau adlif/mesuryddion
  - — Mesuriadau seilwaith brys
  - — Pwyntiau cyflenwi dŵr at ddibenion paratoi bwyd
  - — Pwyntiau dŵr yfed
  - — Pwyntiau samplo / monitro arfaethedig - bydd angen trafod y rhain gyda’r Awdurdod Lleol
  - — Pympiau (ynghyd â’u maint)
  - — Safbibellau
  - — Tanceri neu bowserau
  - — Toiledau, basnau ymolchi a chyfleusterau cawod
  - — Unrhyw bwyntiau trin e.e. ar gyfer diheintio â chlorin, dadglorineiddio a phrofi dŵr /
  - — Awdurdod
  - — Unrhyw gysylltiadau eraill
  - — Unrhyw storfeydd tanwydd ar y safle



6

## Cyflenwad dŵr cyhoeddus – gwerth ei wybod

### Contractwyr Cymeradwy

Dim ond personél â'r hyfforddiant a'r ardystiad priodol ddylai gyflawni'r gwaith o osod y pibellwaith a'r cyfleusterau cyflenwi dŵr, fel y rhai a restrir gan WaterSafe.

WaterSafe yw'r gofrestr genedlaethol o gontractwyr cymeradwy'r diwydiant dŵr, fel plymwyr a gosodwyr pibellau cyflenwi dŵr.

Gallwch ddod o hyd i'ch contractwr cymeradwy lleol trwy chwilio yn www.watersafe.org.uk neu trwy ffonio'r tîm ar 0333 207 9030.

### Ffitiadau sy'n Cydymffurfio

Rhaid i'r ffitiadau dŵr a'r deunyddiau a ddefnyddir mewn systemau sy'n cludo dŵr sy'n deillio o'r cyflenwad dŵr cyhoeddus fod o ansawdd a safon priodol, a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer yr amgylchiadau y bwriedir eu defnyddio ar eu cyfer. Gelwir hyn yn gydymffurfiaeth Rheoliad 4.

Wrth ystyried a yw ffitiad neu ddeunydd yn addas i'w ddefnyddio, dylai trefnwyr digwyddiadau ofyn am dystiolaeth o gydymffurfiaeth gan gyflenwyr neu weithgynhyrchwyr y cynnyrch.

Mae cadw cofnod o'r ffitiadau a'r deundydiau a ddefnyddir, ochr yn ochu â'r dystiolaeth gyfatebol o gydymffurfiaeth, yn arfer dda. Gall y Cwmni Dŵr ofyn am dystiolaeth o gydymffurfiaeth ar gyfer y ffitiadau a osodir.

**Pethau pwysig i'w nodi:**

- Os defnyddir y cyflenwad dŵr cyhoeddus, gall y Cwmni Dŵr ystyried bod angen cyflawni archwiliad o'r gwaith plymio a osodwyd cyn dechrau'r digwyddiad.
- Gall methu â gosod pibellwaith a ffitiadau cyflenwi dŵr sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau[1] i gludo dŵr o'r cyflenwad dŵr cyhoeddus arwain at gyflwyno hysbysiad yn erbyn trefnydd y digwyddiad neu'r gosodwr.
- Bydd y Cwmni Dŵr yn cymryd camau i liniaru'r risgiau i'r cyflenwad dŵr cyhoeddus, fel halogiad trwy adlif[2] neu wastraffu dŵr trwy ollyngiadau. Gallai hyn arwain at ddatgysylltiadau dros dro nes bod y problemau'n cael eu datrys.
- Rhaid i gyflenwadau dŵr preifat beidio â chael eu cysylltu'n uniongyrchol ag unrhyw gyflenwad dŵr cyhoeddus.

1. Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999
2. Adlif yw lle bo dŵr yn llifo i'r cyfeiriad anghywir i mewn neu allan o ffitiad dŵr. Gall hyn beri i ddŵr halogedig o declyn e.e. seston tŷ bach neu ddraen, lifo i mewn i'r pibellwaith cyflenwi dŵr a dod allan trwy allfa dŵr yfed.

7

# Samplo

## Samplo cyflenwad dŵr cyhoeddus

Gall y Cwmni Dŵr gymryd sampl at ddibenion dadansoddi microfiolegol a chemegol yn y pwynt samplo addas sydd agosaf at y fan lle mae'r cyflenwad yn dod i mewn.

Gall Awdurdodau Lleol gymryd samplau o'r cyflenwad cyhoeddus ar gais hefyd, a gellir codi tâl am wneud hyn.

Gall trefnwyr digwyddiadau drefnu eu gwaith samplo eu hunain hefyd, ond dim ond sefydliadau ag achrediad addas ddylai gyflawni hyn. Dylid cytuno ar hyn wrth gynllunio'r digwyddiad gyda'r Cwmni Dŵr a'r Awdurdod Lleol.

## Samplo cyflenwad dŵr preifat

Rhaid i gyflenwadau dŵr preifat sy'n gwasanaethu digwyddiadau dros dro gael eu samplo a'u dadansoddi yn unol â Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017, a rhaid i hyn gael ei gyflawni gan yr awdurdod lleol, neu rywun arall ar eu rhan. Ym mhob achos, rhaid i'r gwaith samplo gael ei gyflawni gan samplwr ardystiedig o dan gynllun samplo *ISO 17024*, neu safon *ISO 17025*. Rhaid i'r dadansoddiad o'r samplau gael ei gyflawni i safon *ISO 17025* hefyd. Gellir codi tâl am samplo a dadansoddi cyflenwadau dŵr preifat.

Rhaid cymryd samplau mewn un pwynt neu ragor sy'n gynrychiadol o'r dŵr lle bydd yn cael ei ddefnyddio yn y digwyddiad ar gyfer unrhyw ddiben domestig (e.e. yfed, golchi dwylo, fflysio toiledau ac ati). Mae dŵr ar gyfer digwyddiadau dros dro yn gyflenwad sy'n rhan o weithgaredd cyhoeddus, a rhaid iddo gael ei fonitro yn unol â chyflenwad o'r math yma (rheoliad 9).

Rhaid peidio â dechrau defnyddio cyflenwad dŵr preifat ar gyfer digwyddiad dros dro nes bod yr Awdurdod Lleol yn fodlon nad yw'r cyflenwad yn peri risg i iechyd y cyhoedd, ar sail y canlyniadau samplo ac asesiad risg ar y system gyflenwi.

Rhaid i'r gwaith samplo gael ei gyflawni gan sefydliad ag achrediad priodol. Rhaid cyflawni paramedrau cemegol yn y rhwydwaith dosbarthu yn unol â *Safon ryngwladol ISO 5667-5*. Rhaid cyflawni paramedrau microfiolegol yn y rhwydwaith dosbarthu yn unol â safon Ewropeaidd *EN ISO 19458*.

Dylid cyflawni gwaith fflysio a diheintio yn unol â *Safon Brydeinig PD 855468:2015* - Y Canllaw ar fflysio a diheintio gwasanaethau sy'n cyflenwi dŵr at ddefnydd domestig mewn adeiladau ac yn eu cwrtil. Dim ond sefydliadau achrededig addas ddylai gyflawni hyn.

8

## Yn Ystod y Digwyddiad

- Gall swyddogion o'r Awdurdod Lleol a'r Cwmni Dŵr gyflawni archwiliad/au a chymryd samplau yn ystod y digwyddiad yn unol â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017, Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013 a'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
- Cynghorir trefnwyr i fonitro a chofnodi lefelau clorin gweddilliol ar bwyntiau priodol ar y cyflenwad yn ystod y digwyddiad. Bydd hyn yn darparu tystiolaeth fod y cyflenwad wedi ei ddiheintio'n ddigonol.
- Cynghorir trefnwyr i gyflawni archwiliadau rheolaidd a glanhau'r tapiau dŵr yfed a'r ffitiadau cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod mewn cyflwr hylan trwy gydol y digwyddiad. Disgwylir i drefnwyr gyflawni archwiliadau dyddiol o leiaf, ond yn amlach lle bo'r asesiadau risg yn dangos bod yna risg uwch.
- Dylai personél gweithredol sydd ynghlwm wrth gyflenwi dŵr fod wedi cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth am hylendid ansawdd dŵr. Yn yr un modd â pharatoi a chyflenwi dŵr, dylai'r personél sy'n gysylltiedig â chyflenwi dŵr fod yn ymwybodol o'r angen parhaus i riportio rhai mathau o salwch e.e. chwydu a dolur rhydd, i'r rheolwyr fel eu bod yn cadw draw wrth dasgau lle mae ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r cyflenwad dŵr a'r cyfleusterau dŵr yfed.

9

## 9 – Storio Pibellwaith a Ffitiadau Rhwng Digwyddiadau

- Lle bo pibellwaith a ffitiadau'n cael eu cadw gan drefnwyr y digwyddiad i'w defnyddio eto mewn digwyddiadau eraill, mae hi'n bwysig eu bod yn cael eu storio mewn ffordd hylan a'u bod yn cael eu paratoi mewn ffordd sy'n atal halogiad cyflenwadau dŵr.
- Pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, dylid draenio'r pibellau a'r ffitiadau a'u storio oddi ar y llawr er mwyn atal cysylltiad â baw neu fermin. Dylid cadw pibellwaith a ffitiadau plastig allan o olau'r haul wrth eu storio am fod hyn yn gallu cael effaith andwyol ar y cynnyrch.
- Dylai'r holl bibellau fod â chaeadau sy'n ffitio'n dynn ar bob pen, a dylid cadw'r rhain yn eu lle hyd nes eu cysylltu.
- Dylid cadw pob pibell a ffitiad draw wrth danwydd, olew a phaent, a dylid taflu unrhyw ddeunyddiau sy'n cael eu halogi fel hyn i ffwrdd. Gall olew tanwydd dreiddio trwy bibellau plastig gan roi blas ac arogl cas i'r dŵr.
- Bydd angen diheintio'r pibellwaith a'i fflysio'n llwyr cyn ei ddefnyddio, a dim ond personél neu gontractwyr â'r hyfforddiant priodol ddylai wneud hyn - gall y Cwmni Dŵr neu'r Awdurdod Lleol ofyn am gael gweld eu tystysgrifau hyfforddiant.

10

# Rhestr Gyfeirio ac Amserlen wrth Baratoi ar gyfer Digwyddiad

| Gweithred | Amserlen |
|---|---|
| Cyflwyno cais am gysylltiad dŵr i naill ai:<br>Y Cwmni Dŵr perthnasol a'r Awdurdod Lleol os bwriedir cysylltu â **chyflenwad dŵr cyhoeddus**<br>**neu**<br>Yr Awdurdod Lleol perthnasol os bwriedir cysylltu â **chyflenwad dŵr preifat**<br>**neu**<br>Y Cwmni Dŵr perthnasol a'r Awdurdod Lleol os bwriedir defnyddio **cyflenwad dŵr tancer** (DS mae hyn yn cynnwys storfeydd swmp e.e. tanciau clustog / ciwbiau) | Cysylltiad **newydd** o leiaf 16 wythnos ymlaen llaw<br>Cysylltiad **sy'n bodoli eisoes** o leiaf 28 diwrnod ymlaen llaw |
| Os bwriedir defnyddio cyflenwad cyhoeddus, rhyddhau'r offer a'r ffitiadau at ddibenion archwiliad rheoliadau dŵr y Cwmni Dŵr cyn dechrau eu defnyddio | Cyn gynted â phosibl |
| Cyflwyno Asesiad Risg a Chynllun Argyfwng i'r Awdurdod Lleol a'r Cwmni Dŵr perthnasol | O leiaf 12 wythnos ymlaen llaw |
| Diheintio a fflysio'r pibellwaith a chymryd unrhyw samplau sy'n angenrheidiol i ddilysu ansawdd y dŵr. Cyflwyno tystysgrif diheintio i'r cwmni dŵr. | Hyd at 7 diwrnod ymlaen llaw |
| Cyflwyno unrhyw ganlyniadau microfiolegol i'r Cwmni Dŵr a'r Awdurdod Lleol. | Cyn gynted ag y bônt ar gael. O leiaf 72 awr ymlaen llaw, neu fel y cytunir adeg y cam cynllunio. |
| Fflysio'r holl bibellwaith er mwyn sicrhau trosiant digonol o ddŵr. Gweler Atodiad 1 am fanylion. | O leiaf 1 diwrnod ymlaen llaw |

# Manylion cysylltu

### Dŵr Cymru Welsh Water

**Cysylltiadau newydd â'r cyflenwad cyhoeddus:**
Ffôn: 0800 917 2652
Ebost: new.connections@dwrcymru.com

**Cyflenwad dŵr o gysylltiad sy'n bodoli eisoes:**
Ffôn: 0800 052 0130
Ewch i: dwrcymru.com/contactus
Cliciwch ar y tab Gwasanaethau Dŵr ac Argyfyngau

### Hafren Dyfrdwy

Ebost: water.regulations@hdcymru.co.uk
Desg Dyletswydd y Rheoliadau Dŵr: 0345 266 7922
Ewch i: www.hdcymru.co.uk

### Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

Gwefan: www.dwi.gov.uk

### Awdurdodau Lleol

Mae manylion cysylltu pob Awdurdod Lleol mewn cyfeirlyfrau ffôn ac ar eu gwefannau.

Mae gwefan Llywodraeth Cymru'n cynnig dolenni i bob un o'r 22 Awdurdod Lleol: www.gov.wales/find-your-local-authority

Neu yn Lloegr: www.gov.uk/find-local-council

# Atodiad 1
# Asesiad risg enghreifftiol

## Asesiad Risg ar gyfer Digwyddiad

| |
|---|
| Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad risg: |
| Dyddiad cwblhau: |

**Noder - canllaw generig i'r risgiau posibl yw hwn. Bydd angen i chi ystyried eich safle eich hun a'r risgiau perthnasol. Gallai fod yna broblemau ychwanegol yn gysylltiedig â'ch digwyddiad penodol y byddai angen i chi fynd i'r afael â nhw.**

| Risg | Mesurau i reoli'r risg | Monitro'r mesurau | Camau os yw'r mesurau'n methu |
|---|---|---|---|
| **Methiant i gyflenwi dŵr oherwydd methiant y prif gyflenwad neu'r bibell gyflenwi sy'n dod i mewn, methiant y pibellau dosbarthu neu halogiad.** | Datblygu cynllun argyfwng | Yr Awdurdod Lleol yn cydsynio i'r Cynllun Argyfwng<br>Cytuno ar ffynonellau cyflenwi amgen | Ystyried cau'r digwyddiad |
| **Halogiad y dŵr drwy groesgysylltiad rhwng y dŵr sy'n dod i mewn o'r prif gyflenwad a chyflenwad dŵr preifat neu gysylltiad anghyfreithlon.** | – Datgysylltu â 'chloi' y cyflenwad preifat<br>– Hysbysu'r staff i beidio ag ailgysylltu â'r cyflenwad preifat<br>– Codi arwyddion | Cyflawni archwiliadau rheolaidd | Hysbysu'r Awdurdod Lleol a'r Cwmni Dŵr ar unwaith |
| **Halogiad y dŵr a gyflenwir oherwydd tapiau, safbibellau wedi eu difrodi neu eu halogi ac ati** | – Cynnal a chadw safon hylan y tapiau a'r safbibellau<br>– Arwyddion i ddefnyddwyr | Cyflawni archwiliadau rheolaidd ar y tapiau a'r safbibellau er mwyn sicrhau glendid | Disodli neu drwsio a diheintio fel y bo angen |

| Risg | Mesurau i reoli'r risg | Monitro'r mesurau | Camau os yw'r mesurau'n methu |
|---|---|---|---|
| **Halogiad y cyflenwad dŵr trwy'r ffitiadau a'r cyfleusterau dŵr e.e. trwy ôl-lifiad.** | – Cysylltu â'r Cwmni Dŵr i gyflawni archwiliad o'r ffitiadau dŵr cyn dechrau'r digwyddiad<br>– Sicrhau mynediad diogel i ac o gwmpas y safle ar gyfer samplwyr, plymwyr, archwilwyr ac ati. | – Cyflawni archwiliadau ar unrhyw gysylltiadau newydd â'r cyflenwad dŵr. Cysylltu â'r Cwmni Dŵr neu'r Awdurdod Lleol am gyngor<br>– Cyflawni archwiliadau rheolaidd ar gyflwr y cyfleusterau sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad | Defnyddio cynlluniau safle i ganfod pa rannau o'r pibellwaith cyflenwi dŵr sydd wedi cael eu halogi.<br>– Peidio â chaniatáu i'r dŵr halogedig gael ei ddefnyddio at ddibenion yfed, golchi neu goginio<br>– Cyflwyno hysbysiadau i'r holl allfeydd bwyd a diod o dan sylw a chau'r tapiau a'r safbibellau dŵr yfed o dan sylw<br>– Cysylltu â'r Awdurdod Lleol am gyngor ar sut i ddelio â halogiad y dŵr<br>– Cysylltu â'r cwmni dŵr am gyngor ar sut i amddiffyn y cyflenwad dŵr cyhoeddus<br>– Os yw'r halogiad yn helaeth, rhoi'r Cynllun wrth Gefn ar gyfer cyflenwadau amgen ar waith neu gau'r digwyddiad<br>– Dylid defnyddio ffitiadau sy'n cydymffurfio yn unig a dylent gael eu gosod yn gywir gan berson cymwys |
| **Halogiad o bibellau gwastraff, tanciau storio gwastraff, tanciau septig neu doiledau** | – Sicrhau bod y cyfleusterau gwastraff a'r trefniadau gwaredu ar y safle yn cael eu cadw ar wahân i'r pibellau dŵr<br>– Amddiffyn pibellau gwastraff rhag difrod, a bod â threfniadau i atal gollyngiadau wrth waredu gwastraff | – Cyflawni archwiliadau gweledol rheolaidd o gyflwr y cyfleusterau dŵr a dŵr gwastraff<br>– Monitro gwaredu gwastraff ar y safle | – Defnyddio planiau'r safle i ganfod pa adrannau o'r bibellwaith cyflenwi dŵr sydd wedi eu halogi<br>– Peidio â chaniatáu i'r dŵr halogedig gael ei ddefnyddo at ddibenion yfed, golchi neu goginio<br>– Cyflwyno hysbysiadau i'r holl allfeydd bwyd a diod a chau'r tapiau dŵr yfed a'r safbibellau o dan sylw<br>– Cysylltu â'r Awdurdod Lleol am gyngor ar sut i ddelio â halogiad y dŵr<br>– Cysylltu â'r cwmni dŵr am gyngor ar sut i amddiffyn y cyflenwad dŵr cyhoeddus<br>– Os oes halogiad, rhoi'r Cynllun Argyfwng ar waith ar gyfer cyflenwadau amgen neu gau'r digwyddiad. |
| **Halogiad y cyflenwad dŵr trwy ddŵr llonydd mewn pibellau sydd yno eisoes neu ddŵr halogedig o bibellau sydd wedi eu difrodi ar y safle** | Gwirio cyflwr y pibellau sydd yno eisoes<br>Fflysio a phrofi pwysedd y pibellau sydd yno eisoes | Cymryd mesuriadau clorin ar wahanol bwyntiau cyflenwi yn y system ddosbarthu a'r cyflenwad sy'n dod i mewn Gall gostyngiad mawr yn lefel y clorin rhwng y cyflenwad sy'n dod i mewn a'r pwyntiau cyflenwi awgrymu bod dŵr llonydd neu halogedig | – Fflysio a diheintio'r pibellwaith. Cysylltu â'r cwmni dŵr am gyngor ar weithdrefnau diheintio.<br>– Cymryd samplau at ddibenion dadansoddi microfiolegol os oes amheuaeth o halogiad sylweddol. |

| Risg | Mesurau i reoli'r risg | Monitro'r mesurau | Camau os yw'r mesurau'n methu |
|---|---|---|---|
| **Methiant i gyflenwi dŵr oherwydd diffyg pŵer** | – Dogfennu diogelwch y pŵer sydd ar gael e.e. i weithredu pympiau a systemau trin dŵr.<br>– Sicrhau bod y staff ar y safle yn gwybod pwy y dylid eu hysbysu am ddiffyg pŵer | Cyflawni archwiliadau rheolaidd ar y cyfleusterau dŵr sy'n dibynnu ar bŵer | Rhoi'r Cynllun Argyfwng ar waith am gyflenwadau amgen neu gau'r digwyddiad |
| **Halogiad y cyflenwad dŵr oherwydd amodau amgylcheddol e.e. llifogydd** | – Sicrhau nad yw cysylltiadau'r pibellau rhag bod o dan groniad o ddŵr glaw<br>– Sicrhau cyflawnder y pibellau / cysylltiadau gan gynnwys y bibell gyflenwi sy'n gysylltiedig â'r brif bibell ddŵr | Cyflawni archwiliadau rheolaidd ar gyfleusterau dŵr ac amodau'r safle | – Defnyddio planiau'r safle i ganfod pa adrannau o'r bibellwaith cyflenwi dŵr sydd wedi eu halogi<br>– Peidiwch â chaniatáu i'r dŵr halogedig gael ei ddefnyddo at ddibenion yfed, golchi neu goginio<br>– Cyflwyno hysbysiadau i'r holl allfeydd bwyd a diod a chau'r tapiau dŵr yfed a'r safbibellau o dan sylw<br>– Cysylltu â'r Awdurdod Lleol am gyngor ar sut i ddelio â halogiad y dŵr<br>– Cysylltu â'r cwmni dŵr am gyngor ar sut i amddiffyn y cyflenwad dŵr cyhoeddus<br>– Os yw'r halogiad yn helaeth, rhoi'r Cynllun wrth gefn ar gyfer cyflenwadau amgen ar waith neu gau'r digwyddiad. |
| **Deliberate/ accidental contamination of water supply by person(s)** | – Describe how access to water storage by unauthorised people will be controlled<br>– Restrict access through e.g. lockable covers on tanks. | Regular checks of water facilities and site conditions | – Use site plans to establish which sections of the water supply pipework have been contaminated.<br>– Do not allow the contaminated water to be used for drinking, washing or cooking purposes<br>– Issue notices to all affected food and drink outlets and close affected drinking water taps and standpipes.<br>– Contact the Local Authority for advice on how to deal with contamination of the water.<br>– Contact the water company for advice on how to protect the public water supply<br>– If contamination is widespread invoke the Emergency Plan for alternative supplies or closure of the event. |
| Risg | Mesurau i reoli'r risg | Monitro'r mesurau | Camau os yw'r mesurau'n methu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Halogiad y cyflenwad dŵr â thanwydd** | – Cadw'r system ddŵr ar wahân wrth y storfeydd/cyflenwadau tanwydd<br>– Osgoi gosod pibellau dŵr yn agos at unrhyw leoliadau storio tanwydd neu olew<br>– Marcio lleoliad unrhyw storfeydd tanwydd neu baent yng nghyffiniau pibellau dŵr ar y planiau<br>– Ystyried defnyddio byndiau neu bibellau atal os oes unrhyw risg o ollyngiadau a halogiad | Cyflawni archwiliadau rheolaidd ar gyfleusterau dŵr ac amodau'r safle | – Defnyddio planiau'r safle i ganfod pa adrannau o'r pibellwaith cyflenwi dŵr sydd wedi eu halogi<br>– Peidio â chaniatáu i'r dŵr halogedig gael ei ddefnyddo at ddibenion yfed, golchi neu goginio<br>– Cyflwyno hysbysiadau i'r holl allfeydd bwyd a diod a chau'r tapiau dŵr yfed a'r safbibellau o dan sylw<br>– Cysylltu â'r Awdurdod Lleol am gyngor ar sut i ddelio â halogiad y dŵr<br>– Cysylltu â'r cwmni dŵr am gyngor ar sut i amddiffyn y cyflenwad dŵr cyhoeddus<br>– Os ceir halogiad, rhoi'r Cynllun Argyfwng ar waith ar gyfer cyflenwadau amgen neu gau'r digwyddiad |
| **Gallai tymheredd cynnes y dŵr beri iddo fod yn afiach neu mewn tywydd oer iawn gallai'r rhew ddifrodi'r pibellau** | – Os bwriedir cynnal y digwyddiad mewn tywydd poeth neu dros sawl diwrnod, ystyriwch a fyddai'n werth defnyddio inswleiddiad er mwyn atal tymheredd y dŵr rhag codi<br>– Os yw'r tywydd yn oer iawn, bydd angen defnyddio deunyddiau lagio priodol<br>– Dylid fflysio'n rheolaidd mewn tywydd poeth | Monitro amodau'r safle | |

| Risk | Measures to control / manage risk | Monitoring of measures | Action if measures fail |
|---|---|---|---|
| **Cymryd dŵr at ddibenion paratoi diodydd neu fwyd o bwyntiau dŵr nad ydynt yn darparu dŵr yfed** | Labelu tapiau e.e. y rhai sy'n bwyntiau dŵr yfed priodol | Monitro gweithgareddau'r safle | Hyfforddi'r staff i fod yn ymwybodol o ddefnydd annerbyniol o ddŵr a sut i riportio hyn neu ymyrryd i'w atal |
| **Halogiad dŵr am fod pridd/creaduriaid bychain ac ati yn dod i mewn trwy ben agored y pibellau** | – Sicrhau bod yna drefniadau i storio pennau agored pibellau neu bibellau chwistrellu - mae angen iddynt gael eu storio mewn ffordd briodol ar y tir a chapio'r pibellwaith.<br>– Pwyntiau mynediad posibl i danciau/ bowserau i gael ei diogelu â bagiau a thagiau er mwyn atal halogiad ar ôl gosod a diheintio | Cyflawni archwiliadau gweledol o drefniadau storio'r pibellau a chyflwr y tanciau cyn eu gosod. | – Peidio â defnyddio pibellau sydd wedi cael eu storio â'u pennau'n agored.<br>– Gwirio y tu fewn i danciau neu bowserau a'u gwrthod os oes unrhyw arwyddion o bresenoldeb anifeiliaid |
| **Risg o halogiad o fowserau neu danciau sy'n frwnt neu'n anaddas neu ddŵr sydd wedi ei ddiheintio'n annigonol** | Sicrhau bod contractwr a chyflenwr y bowserau/ tanciau yn cydymffurfio â BS 8551 | Gwirio:<br>– cofnodion diheintio'r dŵr y tu fewn i'r tanciau,<br>– bod y tanciau wedi cael eu defnyddio ar gyfer dŵr yn unig,<br>– bod y tapiau wedi eu gorchuddio a'u tagio ac ati. | Gwrthod tanciau neu bowserau nad ydynt yn cydymffurfio |

# Atodiad 2:
# Cofnod Gweithredu Enghreifftiol

## Cofnod Gweithredu'r Digwyddiad

| Rhif | Y Broblem | Y Camau a Gymerwyd (cyfeiriwch at yr asesiad risg) | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad gweithredu | Dyddiad cwblhau'r weithred | Llofnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# Atodiad 3:
# Cynllun Argyfwng Dŵr Enghreifftiol

Dylai hyn fod ar gael bob amser a dylid cyflwyno copi er sylw tîm yr Awdurdod Lleol cyn y digwyddiad.

Noder - pro fforma generig o risgiau posibl yw hon. Bydd angen i chi ystyried eich safle eich hun a'r risgiau perthnasol. Gallai fod yna broblemau ychwanegol yn gysylltiedig â'ch digwyddiad penodol y byddai angen i chi fynd i'r afael â nhw. Bydd angen i chi lenwi'r pro fforma isod â gwybodaeth berthnasol ac ystyried unrhyw broblemau ychwanegol sy'n berthnasol i'ch digwyddiad.

| Rhif | Y broblem | Camau i'w cymryd (cyfeiriwch at yr asesiad risg) | Pwy i gysylltu â nhw | Rhifau cysylltu | Oriau gwaith / argaeledd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Methu â chyflenwi dŵr oherwydd diffyg pŵer | | | | |
| 2 | Samplau dŵr yn methu/heb eu prosesu mewn pryd | | | | |
| 3 | Os yw'r halogiad yn helaeth, diogelu cyflenwadau amgen neu gau'r digwyddiad. | | | | |
| 4 | Nid yw'r cyflenwad dŵr potel yn cyrraedd | | | | |
| 5 | | | | | |
| 6 | | | | | |
| 7 | | | | | |
| 8 | | | | | |
| 9 | | | | | |
| 10 | | | | | |